

## Rhith wasanaethau! Rhith gorau! A rhith Gymanfa ganu?

Ar 19 o Fai 2020 cynhaliwyd Cymanfa Ganu ar ZOOM ac roedd yn hynod o lwyddiannus, diolch i'r drefn. Am y tro cyntaf erioed cafodd Cylch Llundain ein Cymanfa Ganu ar-lein eleni. Roedd y Gymanfa i fod wedi ei gynnal yng Nghapel Ealing Green eleni ond oherwydd y pandemig roedd rhaid i ni feddwl yn greadigol. Cafwyd pwyllgor i drafod y ffordd ymlaen ac roedd pawb yn ffyddiog y gellid cynnal yr achlysur ar ZOOM.

Dyn ni wedi bod yn cael oedfaon ar ZOOM ers dydd Gwener y Groglith ac mae llawer o'n haelodau wedi dod yn gyfarwydd gyda'r cyfrwng.

Felly dechreuodd y paratodau tua mis cyn y Gymanfa wrth gael plant yr Ysgolion Sul i recordio eu hunain yn adrodd a chanu yn unigol, recordiwyd rhith-gôr o oedolion, cafodd y cyfeiliant a'r codwr canu ei recordio ac fe gafodd popeth ei rhoi at ei gilydd i gynhyrchu rhaglen sionc ac amrywiol. Fe hyrwyddwyd yr achlysur mewn nifer o ffyrdd – yn cynnwys "slot" i'r ysgrifennydd gael ei chyflweld gan Siân Cothi ar "Bore Cothi" ar BBC Radio Cymru. Hysbysebwyd y digwyddiad hefyd ar S4C Prynhawn Da a Heno. Danfonwyd gwahoddiadau trwy e-byst, WhatsApp, FaceBook, Trydar ac ar neges destun i bob cwr o'r byd!

Doedd y paratodau ddim heb eu pryderon. Wrth recordio fideo o Huw Rhys Evans y cyfeilydd/unawdwr/codwr canu roedd rhaid mynd i Gapel Seion Ealing Green jyst ar ôl i ofynion mwya' llym yr epidemig i gael eu rhyddhau ryw fymryn yma yn Llundain. Rhaid oedd gwneud yn siŵr fod awgrymiadau'r llywodraeth ar gadw draw o bobl eraill yn cael eu parchu. Hefyd roedd y dechnoleg yn ein gadael ni lawr weithiau. Yn ystod un o'r pwyllgorau methodd y Llywydd ymuno oherwydd diffyg trydan yn ei gartref. Tua awr a hanner cyn y Gymanfa Ganu ddydd Sul aeth cyflenwad ZOOM lawr i'r westeiwraig Joanna Thomas-Wright ac roedd rhaid anfon linc newydd allan i bawb neu ohirio! Diolch i'r drefn daeth y cyflenwad nôl gydag awr i fynd!

Aeth popeth yn slic iawn pan ddechreuodd Huw Rhys Evans chware'r organ o'i dŷ yn Harrow tua 15 munud cyn 5pm.

Dangoswyd sleidiau o wybodaeth a lluniau o'r capeli yn Llundain ar y sgrin. Croesawyd pawb am 5 o'r gloch gan Ceredig Thomas ein Llywydd cyn iddo drosglwyddo'r awenau i Gareth John yr arweinydd. Er nad oeddem yn gallu clywed ein gilydd yn canu roedd pawb yn gallu ymuno yn eu tai wrth wrando ar Huw yn canu'r emynau a dilyn y geiriau ar y sgrin neu yn eu Detholiad.

Y rhan fwya' emosiynol oedd fideo'r plant yn cyd-adrodd a chyd-ganu trwy wyrth y dechnoleg ddigidol. Uchafbwynt y Gymanfa Ganu i lawer dw i'n siŵr.

Tua hanner ffordd trwy'r Gymanfa esboniodd Tom Packer, aelod o Eglwys Y Drindod, Cockfosters, am waith Cymorth Cristnogol a sut i roi iddyn nhw drwy dudalen 'Justgiving'. Fe gofiwyd am aelodau o'n heglwysi sy'n gweithio ar rheng flaen y GIG trwy ein gweddïau a offrymwyd gan ein parchus weinidog Parch Richard

Brunt. Dangoswyd fideo Bryn Terfel hefyd oedd yn talu teyrnged i'r gweithwyr allweddol.


Hyfryd oedd gweld fod dros 200 o bobl wedi ymuno gyda ni ar ZOOM o bedwar ban y byd. Roedd ffrindiau o Siapan, Gwlad Belg, Yr Unol Daleithiau, Yr Alban ac o wahanol ardaloedd o Gymru a Lloegr. Cafwyd prynhawn pleserus a bendithiol iawn. Mae'r clod mwya' am y llwyddiant ysgubol yn eiddo i Joanna a weithiodd yn ddifflino, gyda'i gŵr Jonathan, i gyflawni'r gwaith o gael popeth ar ddull digidol mewn amser byr iawn.

Diolch yn fawr iawn i bawb a fuodd yn rhan o'r Gymanfa Ganu unigryw hon ac a roddodd eu doniau, sgiliau a'i hamser yn ddifflino. Bu i'r Gymanfa godi ein calonnau i gyd yn yr amser pryderus ac od iawn i bawb.

Dyn ni yn edrych 'mlaen ac yn gweddïo y gallwn ddod at ein gilydd o dan yr un to blwyddyn nesa yng Nghapel Clapham pryd y byddwn yn dathlu pen-blwydd arbennig.

*Sue Harston*

**(Cofiwch yr hoffem wybod am eich profiadau chi o ddefnyddio technoleg yn ystod y pandemig hwn)**



## O hwnt ac yma

### ANGLADDAU

Cefais achos yn ddiweddar i fynychu dau angladd yn yr un wythnos: un mewn capel Presbyteriaid Cymraeg (y gwasanaeth yn gyfangwbl yn y Gymraeg), a'r llall mewn Cadeirlan Babyddol (a'r gwasanaeth bron yn gyfangwbl yn Saesneg). Deuthum adref o'r ddau yn teimlo'n drist ac yn anfoddog. Nid bod disgwyl i neb ddod adre o gynhebrwg yn dawnsio o lawenydd!

Nid teimlo'n drist oherwydd colli dau gyfaill, a theimlo fod eglwys a chymdeithas yn dlotach oherwydd y golled, ond teimlo fod rhywbeth mawr ar goll yn y gwasanaethau eu hunain. Roedd y gwasanaeth Cymraeg yn raenus gyda phawb oedd yn cymryd rhan ar eu gorau. Ond cyfarfod coffa, yn hytrach na gwasanaeth angladdol Cristnogol a gafwyd yn y gwasanaeth ymneilltuol,

Roedd y ddwy deyrnged yn y capel – y naill yn sôn am waith yr ymadawedig fel cynghorwr a'r llall at ei gyfraniad i wahanol fudiadau a chymdeithasau. Roedd yn amlwg iddo weithio'n gydwybodol ymhob un ohonynt.

Yr hyn oedd yn fy mhoeni i oedd y diffyg cyfeiriadau at nefoedd na bywyd tragwyddol. Ar wahân i gyfeiriad cwta yn Rhufeiniaid 8 – na allai dim ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu – roedd darlenniadau o'r Salmau heb unrhyw gyfeiriad o gwbl at

Dduw yn cadw ei bobl, neu yn darparu lle yn ei bresenoldeb yn y byd y tu draw i'r bedd.

Doedd dim sôn am aberth y groes; dim o addewidion Iesu o leoedd i orffwys yn nhŷ ei Dad, ac yn waeth na dim, dim cyfeiriad at yr atgyfodiad. Mynegwyd cydymdeimlad yn ddwys ac yn dyner â'r teulu. Ond diweddiwyd y gwasanaeth gyda'r datganiad hollol baganaidd, "Heddwch i'w lwch".



Ond beth am y gwasanaeth Pabyddol wedyn? Roedd hwnnw'n siŵr yn cynnwys cyfeiriadau at nefoedd a bywyd tragwyddol. Ond prin iawn oedd y rheini. Do, cafwyd nifer o ddarlenniadau priodol a gweddiau addas, ond roedd y cyfan o fewn cyd-destun Offeren y Meirw (*Requiem Mass*) – sy'n arferiad cyffredin ymhlith Pabyddion.

Gwnaed llawer o ddefnydd o aroglarth – aroglarthu'r arch, y cantorion a'r offeiriaid a gwahoddwyd y rhai oedd heb fod yn Babyddion i ddod ymlaen i dderbyn bendith. Roedd yr angladd yn *achlysur*: yn ddatliad o fywyd yr

ymadawedig, yn weithred o'i gyflwyno'n llawen i ofal Duw gan ei ddisgrifio'n cael ei gludo gan angyllion i'r presenoldeb dwyfol, ac yna eiriolaeth na fydd yn hir ym mhurdan cyn ei drosglwyddo i ogoniant y nef. Rhan o bwmpas yr offeren yw ei hybu ar ei daith.

I Brotestant y mae llawer o gynnwys y gwasanaeth yn codi cwestiynau ac yn ymddangos yn groes i ddysgeidiaeth y Beibl.

Os oedd nifer o gwestiynau yn codi i ni mewn perthynas â chynnwys y ddau wasanaeth, pa mor berthnasol ac ystyrlon oeddent i'r byd oddi allan? Gwasanaethau angladdol yw rhai o'r ychydig achlysuron pan yw'r eglwys yn cael cyfle i gyfarch y byd. Y mae pob gwasanaeth angladdol yn gyfle i efengylu – i gyflwyno'r newyddion da am Dduw a'i gariad yn Iesu Grist. Ym mhrofiad pob person fe all mai gwranddo ar wasanaeth angladdol fydd yr unig adeg iddynt dywyllu lle o addoliad. Cânt eu denu at Iesu ac at y ffydd, neu eu pellhau oddi wrtho.

Wedi dod adre euthum i ailddarllen y bennod olaf o lyfr diweddaraf Richard Holloway, *On Catching the Last Bus Home*, a chael fy nghalonogi gan ei honiad fod y mwyafrif o bobl ymhob crefydd yn credu'n ffyddiog fod cariad Duw yn drech nag angau a'i fod yn agor inni byrth y nefoedd pan ddaw ein hamser i ymadael â'r fuchedd hon.

Piti na chawn glywed yn gliriach addewid yr efengyl mewn gwasanaethau angladdol Cymraeg.

**Elfed ap Nefydd Roberts**

## Capel y Rhos, Llandrillo yn Rhos

Fel pawb arall, rydym wedi gorfod addasu i'r sefyllfa newydd ond dyma rannu peth o'n hanes yn ystod y cyfnod hwn. Fe fydd y Parch Helen Wyn Jones yn anfon tri e-bost bob wythnos: dydd Llun yn cynnwys Cwis Beiblaidd a / neu Groesair ac fe ddaw'r atebion yn e-bost dydd Mercher. Bydd e-bost dydd Gwener yn cynnwys myfyrdod a chylchlythyr gydag anogaeth i oleuo *Cannwyll Gobaith* ar amser penodol ar nos Sul. Mae'r cyswllt dros y ffôn yn hynod o werthfawr ac mae'r swyddogion yn cyfarfod, gan ddefnyddio **Zoom**, i rannu gweddi ac i drafod.

Rydym wedi ceisio ymateb i COVID-19 trwy ganiatáu i wasanaeth cefnogi gwirfoddol wedi ei drefnu gan NEWMS (Nationwide Emergency Medical Services Ltd) ACCREDILINK cyf. ddefnyddio'r Ystafell Gyfarfod yng Nghapel y Rhos fel canolfan reoli i drefnu cymorth yn lleol. Mae'r gwasanaeth arbennig hwn yng ngofal Mike ac Elen Bohanna sydd gyda phrofiad ac arbenigedd fel technegwyr ambiwlans annibynnol sy'n gweithio, fel arfer, mewn digwyddiadau cyhoeddus ar draws gwledydd Prydain. Gan fod y gwaith hwnnw wedi dod i ben dros dro, roeddent yn awyddus i ddefnyddio eu sgiliau gwirfoddoli i helpu'r gymuned leol. Maent wedi gweithredu ers deufis, bellach, ac mae rhyw ddeg o wirfoddolwyr yn eu cynorthwyo.

Mae'r rhai sy'n fregus eu hiechyd ac yn hunan-ynysu yn hynod ddiolchgar am gael bwyd a moddion o'r fferyllfa wedi



eu danfon i'w cartrefi yn ôl y galw. Mae'r cyswllt ffôn yn sicrhau bod rhywun ar gael i wrando ac maent yn gymwys i ateb cwestiynau yn ymwneud ag iechyd. Mae'r ambiwlans yn hynod o ddefnyddiol ac mae ar gael pan mae angen cludo cleifion i ysbytai i weld arbenigwyr.

Er nad aelodau'r capel sy'n gyfrifol am y gwasanaeth, rydym yn hynod o falch fod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio i gynnig gwasanaeth sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan y gymuned.

**Meurig Edwards**

## AR DAITH DRWY'R HEN DESTAMENT

Canllaw ar gyfer astudiaeth a thrafodaeth mewn grŵp bychan, gan gynnwys gwrs oedolion yr ysgol Sul neu fel deunydd myfyrdod personol (Seilledig ar y gyfrol *Geiriau Ffydd 3* gan y Parch. John Treharne, sef gwrslyfr ysgol Sul yr oedolion am 2019/20)

Paratowyd gan y Parch. Hywel Rh. Edwards

### Gwers 38 – Sul, 14 Mehefin

#### HABACUC

rhydd i'm henaid hedd tragywydd,  
hon a foddia 'nyfnaf gri  
(*Caneuon Ffydd*, 540)

'Er nad yw'r ffigysbren yn blodeuo,  
ac er nad yw'r gwinwydd yn dwyn  
ffrwyth;  
er i'r cynhaeaf olew ballu,  
ac er nad yw'r meysydd yn rhoi bwyd;  
er i'r praid ddarfod o'r gorlan,  
ac er nad oes gwartheg yn y beudai;  
eto llawenyachaf yn yr ARGLWYDD,  
a llawenhaf yn Nuw fy iachawdwriaeth.'  
(Habacuc, 3:17–18; tud. 282  
yn y Gwerslyfr)

*Darllen:* Habacuc 1:1–6; 2:1–4; 3:1–19

*Gweddi:*

Beth fydd fy rhan ar hyd [y] misoedd  
maith?  
Nis gwn, fy Nuw; ni fynwn wybod  
chwaith.  
Ai hyfryd ddydd, ai nos dymhestlog  
ddaw?  
Bodlon, os caf ymaflyd yn dy law.  
Amen.  
(*Caneuon Ffydd*, 92)

Mae'r siwrnai ysbrydol a geir yn llyfr y  
proffwyd Habacuc yn berthnasol iawn  
i'n cyfnod ni. Er bod yr amgylchiadau'n  
wahanol, cyfnod diwedd ymerodraeth

Asyria a dyrchafiad y Caldeaid, maent  
yn peri i'r proffwyd gwestiynu Duw.  
Eto, erbyn diwedd y llyfr mae'n cyffesu  
ei fodlonrwydd yn rhagluniaeth Duw – a  
mwy: 'llawenhaf yn Nuw fy  
iachawdwriaeth' (3:18).

Gobeithio y gwelwch y cysur sydd  
yng ngallu'r gŵr yma, na wyddom ni  
ddim mwy amdano na'i fod yn broffwyd  
yn ystod y cyfnod hwn, i fedru mynegi ei  
gŵyn, ei ofn ac o bosib, ei amheuaeth i  
Dduw, heb ddal yn ôl. Yr un pryd, mae'n  
medru canfod lle i ymddiried yng ngallu  
a chyfiawnder ei Dduw. Am ryw reswm  
rydym wedi ysgaru'r ddeubeth hyn oddi  
wrth ei gilydd a'u pegynu, er y gwelwn  
drwy'r Beibl fod gonestrwydd a chyffes  
ffydd yn mynd law yn llaw â'i gilydd.

Er na welwn ni'r rhesymau, mae man  
diogel a thangnefeddus o wybod bod  
llaw Duw tu ôl i'r cyfan. Fel dywed y  
Salmydd (Salm 131:1–2):

'O ARGLWYDD, ... nid wyf yn  
ymboeni am bethau rhy fawr,  
nac am bethau rhy ryfeddol i mi.  
Ond yr wyf wedi tawelu a distewi fy  
enaid,  
fel plentyn ar fron ei fam.'

Nid cuddio rhag y cwestiynau mo hyn,  
ond eu cyfeirio i'r man cywir, fel y  
gwelwn ar ddiwedd Pennod 1 a dechrau  
Pennod 2: 'Safar ar fy nisgwylfa ...  
syllaf i weld beth a ddywed wrthyf.'  
Daw'r ateb sy'n un o gonglfeini ein ffydd  
Cristnogol: 'Yr un nad yw ei enaid yn  
uniawn sy'n ddi-hid, ond bydd y cyfiawn

fyw trwy ei ffyddlondeb' (2:4). Dyma'r  
allwedd yn y drws i Paul fedru esbonio  
cyfiawnhad drwy ffydd yn ei lythyr at y  
Rhufeiniaid 1:17 (cf. Galatiaid 3:11;  
Hebreaid 10:38; Ioan 3:36). Wrth sylwi  
mai 'ffyddlondeb' sydd yma ac nid  
'ffydd', cofiwch nad oes gwahaniaeth  
rhyngddynt yn y Beibl: rydych yn  
dangos eich ffydd drwy eich  
ffyddlondeb a'ch uffudd-dod.

Ond beth am yr adnodau mawr yma ar  
ddiwedd y llyfr? Mae'r bennod yn agor  
gyda geiriau cyfarwydd yn adn. 2: 'O  
Arglwydd, clywais y sôn amdanat ...  
adnewyddda ef yng nghanol y  
blynyddoedd.' Mae yna'n datgan  
mawredd a gallu Duw, gan gynnwys yr  
annisgwyl yn adn. 5 am yr haint a'r pla,  
gan eu sodro'n glir yng nghyd-destun  
sofraniaeth Duw. Wrth adrodd hyn, fe  
ddaw, erbyn adn. 16, i ddiwedd glo  
cynhyrfus o ddisgwylgar cyn y  
datganiad rhyfeddol o fodlonrwydd yn  
arfaeth Duw: 'Er nad yw'r ffigysbren yn  
blodeuo ... eto llawenyachaf yn yr  
ARGLWYDD.'

Er nad yw'n deall llawnder ystyr ei  
eiriau, gwêl y proffwyd yma mai ei ffydd  
sydd yn ei ddwyn i berthynas lle mae  
Duw yn dod yn iachawdwr iddo.

Tybed, yn wyneb y colledion a'r  
anrheithio ar ein gobeithion am eleni, y  
gallwn ninnau, fel Habacuc, ganfod ein  
bodlonrwydd ynddo Ef?

#### Trafod ac ymateb:

1. Pryd wnaethoch chi gyffesu eich  
ffydd yn Nuw i rywun arall  
ddiwethaf? Sylwch mor gadarnhaol  
yw'r effaith wrth i Habacuc gyffesu ei  
ffydd.
2. Beth am i ni weddio Habacuc 3:2, a  
17–18, gan ddwyn gerbron yn yr  
Arglwydd ein tystiolaeth o'i ddaioni,  
ynghyd â'r anawsterau presennol  
rydym yn eu hwynebu, gan ofyn iddo  
hefyd roi i ni draed yr ewig i ni  
droedio'r uchelfannau gydag ef.
3. Myfyriwch ar y gwir fodlonrwydd a  
fynegrir yn *Caneuon Ffydd*, rhifau 92  
a 540.

## Llythyr



*Annwyl Olygydd,*

Darllenais yr erthygl gan Wynford Ellis  
Owen yn ofalus, efallai am fy mod i'n  
gofyn yr un cwestiwn weithiau ('Beth  
yw Cristion?' Pedair Tudalen, rhifyn  
22 Mai). O'n i'n meddwl bod Wynford  
wedi gosod yr 'atebion', a'r problemau  
gyda phob un ohonynt, yn drylwyr ac  
yn eglur. Rwy'n cytuno ag ef gant y  
cant. OND wrth synfyfyrion yn y  
dyddiau wedyn, do'n i ddim yn hollol  
gysurus gyda'i ateb ar y diwedd. Does  
gen i ddim byd yn erbyn y diffiniad o  
Gristion fel rhywun sy'n trio bod yn

debyg i Iesu fel RHAN o'r ateb, ond a  
ydy hynny'n ddigon? Ar y llaw arall,  
does yr un o'r atebion eraill, i mi, yn  
llenwi'r bwlch.

Heddiw, yn sydyn daeth ateb i mi.  
Fel Cristion, rwy wedi darganfod  
ystyr yn y 'stori' Gristnogol – hynny  
yw, arwyddocâd dwys, nid jst  
dealltwriaeth yn fy mhen! Wrth  
chwilio yn y stori honno, gweddio, a  
rhannu gyda Christnogion eraill, rwy'n  
gobeithio fy mod i'n dod yn fwy tebyg  
i Iesu, nid drwy ymdrech ond drwy fyw  
yn ei bresenoldeb (fel plentyn dan  
dylanwad rhiant da).

Diolch i Wynford am yr erthygl a'r  
cyfle i fyfyrion amdani!

*Y Parchedig Pamela Cram*

### Cyfeiriad Golygydd Y PEDAIR TUDALEN

Huw Powell-Davies

[pedair.tudalen@gmail.com](mailto:pedair.tudalen@gmail.com)

neu Llifor, 60 Ffordd Rhuthun,  
Yr Wyddgrug, CH7 1QH

Anfonwch eich erthyglau, hysbysebion  
a.y.y.b. i'r cyfeiriad uchod.

Mae'r Pedair Tudalen Gydenwadol yn  
cael eu cynnwys yn rhan o bapurau  
wythnosol tri enwad, sef *Y Goleuad*  
(Eglwys Bresbyteriaid Cymru), *Seren*  
*Cymru* (Undeb Bedyddwyr Cymru) a'r  
*Tyst* (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg).

# Wedi'r haint fe ddaw newid

Roeddwn yn ceisio dadansoddi effaith y cyfnod unigryw hwn yn ein hanes arnom fel eglwys Cymraeg. Gwn na ellir tafoli'r hyn sy'n digwydd yn iawn hyd nes y byddwn yn gallu edrych yn ôl dros ysgwydd amser. Ond nid drwg o beth yw ystyried ein sefyllfa nawr ac fe gawn gyfle eto – os Duw a'i myn – i bwysu a mesur yn fanwl ddylanwad Cofid-19 a'r ynysu ar Gristnogaeth yng Nghymru 2020.

## Cefndir

Am y tro cyntaf erioed yn hanes Cristnogaeth yng Nghymru, y mae ein holl addoldai wedi cau am gyfnod amhenodol. Mae hyn ynddo'i hyn yn rhywbeth arwyddocaol. Nid yw ein haddoldai erioed wedi cau mewn cyfnodau o ryfel, llifogydd, newyn, erlid na salwch yn y gorffennol, felly mae'r cyfnod hwn yn unigryw. Wrth gwrs, bu plâu difrifol yn y gorffennol, ond oherwydd nad oedd pobl yn deall sut roedd heintio yn digwydd, nid oedd ganddynt unrhyw glem sut i ymateb. Bellach – diolch i'r drefn – gwyddom beth yw firws, bacteria a hylendid. O ganlyniad, gallwn ymateb er mwyn atal lleadaeniad y Firws Corona. Mae'r hyn sy'n digwydd nawr gyda'r cyfyngiadau yn angenrheidiol er diogelwch ac iechyd ein pobl a'n cymunedau.

Ond yn sgil hyn rydym yn cael ein taflu fel eglwys i diriogaeth ddieithr a phrofiadau newydd. Fe'n lluchiwyd yn ddiseremoni i'r anghyfarwydd. Rydym wedi gorfod gofyn y cwestiwn, sut ydym i barhau â'n haddoliad a'n tystiolaeth fel corff Iesu Grist? A yw hyn wedi rhoi'r farwol i rai o'n cynulleidfaoedd, ac ni fyddant yn cyfarfod eto? Rhaid cofio bod eglwys o natur wahanol i bob sefydliad arall, e.e. chwaraeon. Pan mae gemau pêl-droed, rygbi, hoci yn cael eu gwahardd, mae nod amgen clybiau a rhaglenni chwaraeon yn darfnod hefyd. Yr unig beth allant ei wneud yw edrych ymlaen at y dyfodol neu hel atgofion am y gorffennol, trwy ailwyllo hen gemau. Ond nid felly'r eglwys, oherwydd corff Crist ydyw sydd wedi ei chreu a'i galw gan Dduw trwy rym yr Ysbryd Glân. Felly, er bod rhyddid i ymgynnull wedi dod i ben am gyfnod, y mae Duw yn dal i deyrnasu, mae Iesu yn parhau i fod yn Arglwydd a Gwaredwr, ac mae'r Ysbryd Glân yn gweithredu. Mae'r eglwys felly'n parhau, mae'r addoli a'r gwasanaethu yn dal i ddigwydd. Ni dderfydd yr eglwys. Ni all Cristnogion beidio â byw a chyhoeddi'r newyddion da am gariad Duw yn Iesu. Mae'r gwirionedd ynom yn llosgi fel tân; ni allwn beidio â thystio mewn gair a gweithred (gw. Jeremeia 20: 9). Fel hyn mae Paul yn mynegi'r ysfa,

'Oherwydd os wyf yn pregethu'r

Efengyl, nid yw hynny'n achos ymffrost i mi, gan fod rheidrwydd wedi ei osod arnaf. Gwae fi os na phregethaf yr Efengyl! (1 Corintiaid 9:16)

"Dydy hyd yn oed y ffaith fy mod i'n cyhoeddi'r newyddion da ddim yn rhoi sail i mi frolio – does gen i ddim dewis! Mae'n rhaid i mi gyhoeddi'r neges! Allwn i ddim dioddef peidio cael cyhoeddi'r newyddion da!" (1 Corintiaid 9:16; Beibl.net)

## Cau Addoldai

Nawr gan fod ein haddoldai wedi cau dros dro, sylweddolwn sut y maent yn gallu tymheru ein haddoliad, siapio ein tystiolaeth a mowldio ein gweinidogaeth. Mae eu maint, eu pensaernïaeth, eu hofferynnau cerdd a'u lleoliad yn dylanwadu ar ein dull o weithredu. Gwyddom pa mor anodd yw camu allan o rigolau'r gorffennol a rhan o hynny yw dylanwad ein hadeiladu. (Diolchwn i *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* am eu hoedfa newydd ar fore Sul sy'n fendith i lawer o'n haelodau sydd ddim ar y We. Ond mae'n ddiddorol sylwi eu bod yn recordio gweinidogion ar gyfer yr oedfa mewn addoldai gwag. Paham? Nid yw hynny bellach yn adlewyrchu ein sefyllfa bresennol. Mae angen meddwl yn wahanol.)

Ond mae'n hyfryd gweld sut mae ein heglwys wedi ymateb yn greadigol i her yr amgylchiadau. Nid troi eu hwynebau tuag at y pared a wnaethant ond newid eu cyfryngau cyfathrebu yn chwim fel eu bod yn gallu parhau i fyw a thystio i'w ffydd yn Iesu. Nawr rydym wedi symud oddi wrth y patrwm o addoli mewn addoldy i batrwm addoli mewn perthynas â phobl. Nid yw oedfaon bellach wedi eu canoli ar adeilad. Rydym yn canfod ffyrdd gwahanol i fynegi ein hunain – boed hynny drwy daflenni, litwrgi, podlediad, ffôn, Youtube, Zoom, gweplyfr byw neu oedfa fideo. Mae hwn yn newid syfrdanol, fwy neu lai dros nos. Bellach nid adeilad sydd yn mowldio ein haddoliad, ond ein perthynas gyda'n gilydd fel Cristnogion. Canlyniad hyfryd i hyn yw mai canolbwynt ein Cristnogaeth yw ein haelwydydd a'n teuluoedd. Cam gwag gymerwyd gan Ymneilltuwyr oedd adeiladu cynifer o gapeli, gan symud canolbwynt ein ffydd o'r aelwyd a'r teulu i'r adeilad. Roedd hwn yn rhan o'r rheswm pam ein bod wedi colli gafaél ar deuluoedd a phobl gyffredin. Nawr trwy'r cyfryngau torfol mae ein hoedfaon, yr ysgol Sul, cyrddau gweddi, astudiaethau Beiblaidd yn cael eu cynnal mewn cartrefi. Mae hyn yn beth rhagorol.

## Yn y Tymor Hir

Ond tybed beth fydd effaith hyn ar ein heglwys yn y tymor hir? Mae'n anodd

darogan. Mwy na thebyg y byddwn yn mynd yn ôl i'r hen batrymau, ond credaf y bydd rhaid i ni barhau gyda rhai o'r datblygiadau diweddaraf. Dyma rai sylwadau perthnasol:

1. Mae'r cyfnod hwn wedi newid dull yr enwadau a'r Undebau Eglwysig o weithredu. Rhyngddynt hwy a'r eglwys y mae mwy o ddarpariaethau Cristnogol aml-gyfryngol Cymraeg wedi eu creu yn ystod y 10 wythnos diwethaf nag a welwyd erioed o'r blaen. Mae hynny'n ddweud mawr, ac y mae'n ddatblygiad gwych. Rhaid i hyn barhau.
2. Rhaid i'n presenoldeb fel Cristnogion Cymraeg barhau ar y We, oherwydd mae'r mwyafrif o Gymry yn defnyddio'r We yn ddyddiol. Dim ond un clic i ffwrdd ydynt o glywed y newyddion da am Iesu. Y mae ystadegau'n awgrymu fod mwy yn gwylio oedfaon ar y We ar hyn o bryd nag oedd yn mynd i oedfaon mewn addoldai ar y Sul. Trwy'r We hefyd mae gennym fynediad i gartrefi pobl ac at unigolion a theuluoedd yn uniongyrchol. Honnai erthygl yn y *Guardian* fod 25% o oedolion y Deyrnas Gyfunol wedi gwylio oedfa grefyddol yn ystod y pandemig.
3. Gydag adnoddau Cristnogol ar-lein, gall pobl eu gwylio/gwrando unrhyw bryd, wrth deithio, ymarfer corff, pan fyddant yn sâl, yn gaeth i gartref neu'n rhy ddiog i ddod i addoliad, ac y mae'r adnoddau hyn yn aros yno am flynyddoedd. Nid digwyddiadau byw dros dro rhwng pedair wal ydynt sy'n darfnod gyda'r Amen.
4. Mae'n rhaid inni ystyried dal ati i gynnal rhai cyfarfodydd ar lein, oherwydd golygy y gall mwy o bobl 'fynychu'. A oes rhaid tynnu pobl allan i'r capel ar gyfer pob cyfarfod? Wrth gwrs, mae'n hanfodol fod eglwys yn ymgynnull yn gyson yn gorfforol, ond bellach rhaid bod yn fwy hyblyg. Mae gennym nawr y dechnoleg ar flaenau ein bysedd.

Amser a ddengys beth a ddaw, ond rwy'n hyderus y bydd yr Arglwydd yn defnyddio'r ddrycin hon sydd wedi dod i ran ei bobl i hyrwyddo gwaith ei Deyrnas.

Ac i gloi ar nodyn ysgafnach. Beth ydyf wedi ei ddyysgu yn ddiweddar?

1. Ni ellir cydganu ar Zoom.
2. Gellir tawelu unrhyw un o'r gynulleidfa ar Zoom drwy ddefnyddio'r botwm 'Tawelu'. Handi!
3. Oherwydd system e-bostio Mailchimp rwy'n gwybod pwy sy'n agor e-byst yr eglwys a phwy sydd ddim!

*Alun Tudur*

# Gwrthwynebu ymestyn gweithgaredd y Llu Awyr ym Maes Awyr Llanbedr, 17 Mai 2020

Gan gangen Dwyrdd a Glaslyn o Gymdeithas y Cymod

Mae Snowdonia Aerospace wedi dechrau'r broses o sefydlu Parth Traffig Awyr newydd ym Maes Awyr Llanbedr. Pwrpas hyn yw galluogi'r Llu Awyr i hyfforddi peilotaiaid awyrennau rhyfel, rhai Prydeinig a rhai tramor.

Mae Cymdeithas y Cymod yn rhan o fudiad rhyngwladol sy'n gwrthwynebu rhyfel a thrais. Bu'r aelodau yn flaenllaw yn ymgyrchu yn erbyn defnydd milwrol o'r safle yma ers blynnyddoedd.

'Gwrthwynebw'n y cais hwn i ymestyn militariaeth i fwy fyth o diriogaeth Cymru,' meddai Awel Irene, ysgrifennydd Cymdeithas y Cymod.

Mae'r cais i'r Awdurdod Hedfan Sifil yn gofyn am gynnydd sylweddol yn y traffig awyrennau yn Llanbedr. Ar hyn o bryd mae tua 100 i 200 o hediadau sifil y mis yno, a gofynnir am godiad sylweddol o 100 i 200 yr wythnos, gydag uchafswm o 50 hediad y dydd. Credir bod hyn o ganlyniad i'r ffaith fod hyfforddiant hedfan milwrol y Deyrnas Unedig wedi ei ganoli yn RAF Valley wedi rhoi pwysau ar y safle hwnnw.

Deallir bod llawer o gwyno wedi bod yn ddiweddar mewn sawl ardal o Wynedd a Môn am sŵn awyrennau hyfforddi'r Awyrlu. Os yw'n wir, fel y dywedir, mai hyfforddi peilotaiaid o dramor a wneir, yna mae trigolion yr ardaloedd hyn yn gorfod dioddef y llygredd swllyd hwn er mwyn cefnogi strategaeth y Deyrnas Gyfunol o



alluogi dulliau treisiol ledled y byd, a rhoi cymhorthdal cyhoeddus, i bob pwrpas, i'r diwydiant arfau. Bu Cymdeithas y Cymod yn protestio yn RAF Valley yn erbyn hyfforddi peilotaiaid o Sawdi Arabia i'w galluogi i ddefnyddio arfau a werthwyd gan y Deyrnas Gyfunol ac a ddefnyddiwyd yn Yemen.

Mae'n ddadlennol fod Snowdonia Aerospace yn rhestru ymhlith eu cwsmeriaid y cwmnïau arfau BAE Systems, Qinetiq a Thales, yn ogystal â'r Weinyddiaeth Amddiffyn a Llywodraeth Cymru.

Anfonwyd llythyr uniaith Saesneg gan Snowdonia Aerospace, dyddiedig 5 Mai 2020, gan ddisgwyl ymatebion erbyn 18 Mai 2020. Nid yw hyn yn ddigon o amser, yn enwedig yn y cyfnod presennol. Ni chysylltwyd â llawer o fudiadau allai fod â diddordeb yn y cais, yn lleol nac ar draws Cymru. Rhestrir 159 o sefydliadau sydd wedi derbyn y llythyr – ond mae'r mwyafrif mawr yn rhai sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r diwydiant hedfan. Mae

hyd yn oed yn cynnwys Awyrlu'r Unol Daleithiau!

Cofiw'n Gyngor Gwynedd roi £500,000 o arian trethdalwyr i gefnogi'r Maes Awyr. Ar y pryd, roeddynt yn daer nad oeddent am i'r arian fynd i gefnogi arfau a rhyfel. Rhybuddiodd Cymdeithas y Cymod yn erbyn hyn ar y pryd, ac erbyn hyn gwiredwyd eu hofnau.

Meddai Dr Gwyn Williams ar ran y gangen leol o Gymdeithas y Cymod:

'Mae'r Datganiad o Angen sy'n rhan o'r cais yn dweud ei fod yn angenrheidiol ar gyfer "diddordeb strategol economaidd Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru". A'n gwaredo fod datblygiad pellach o arfau dinistriol yn angenrheidiol. Mewn cyfnod pan mae angen i'r byd adeiladu o'r newydd, rhaid gofyn pan mor effeithiol yw'r diwydiant rhyfel i'n hamddiffyn rhag y bygythiadau mawr, megis newid hinsawdd a'r pandemig nesaf.

Mae Cymdeithas y Cymod yn gofyn i bobl ysgrifennu at eu haelod yn Senedd Cymru a San Steffan ac at unrhyw gynghorydd lleol i fynegi eu gwrthwynebiad. Byddai'r Gymdeithas yn falch o glywed gan unrhyw un sydd eisiau bod yn rhan o ymgyrch Llanbedr yn y dyfodol.

**Rhagor o fanylion:**

**Awel Irene – 01766 772 788;**  
**[cymdeithasycymod@gmail.com](mailto:cymdeithasycymod@gmail.com)**

## EMAUS – ymateb i oedfa rithiol

Fe fydd derbyn ymateb i oedfa neu neges y mae pregethwr wedi ei pharatoi yn beth amheuthun iawn, yn enwedig yn y dyddiau hyn o oedfaon rithiol lle nad oes modd gweld cynulleidfa, dim ond gweddio a gobeithio bod yna rai'n gwylio yr ochr draw i'r camera bach a'r cyfrwng darlledu, ac yn arbennig os yw'r ymateb yn un cadarnhaol a chreadigol.

Felly yr oedd hi arnaf innau ar ôl oedfa Sul y Pasg Bach lle bûm yn sôn am y ddau ar y ffordd i Emaus, yn cael Iesu yn gwmni iddyn nhw yn esbonio pam roedd pethau fel roedden nhw ac yn agor eu calonau a'u meddyliau i'w adnabod. Yn gefndir inni ar y wal yn y gegin wrth ddarlledu'r neges ar y Sul mae yna lun, print o ddarlun enfawr David Hockney, *The Advent of Spring*, gyda choedwig yn dod yn fyw gan flagur y gwanwyn a llwybr yn arwain drwy'r darlun, fel sydd mor nodweddiadol o'i waith, ac fe gyfeiriwyd ato yn ystod yr oedfa.

Fe gefais wybod bod un o'r aelodau



wedi bod yn gwrando ac yn gwylio ac wedi ei hysbrydoli i gyfansoddi emyn ar ôl yr oedfa! Diolch i Awen Powell am ei hanogaeth ac am ganiatâd i rannu'r emyn yn y fan yma. (Gol.)

**DEFFROAD (Mesur 87.87D)**

Wrth in gerdded ar hyd llwybr taith ein bywyd, arwain ni; dan y coed a'r dail yn gysgod dysg i ni'th adnabod di.

Cymell di ein traed rhag gwyro, o'r iawn drywydd, cynnal ni: gwan amheun sy'n ein hatal rhag cydnabod pwy wyt ti.

Boed in gofio mawredd d'aberth a'th ddiodeffaint drosom ni, nerth dy eiriau a'th weithredoedd, goncwrw angau, wyrthiol Ri. Gwagedd wrth dy fedd yn fore glywsant gan angylion nef: "Cododd Iesu." Daeth gorfoledd i'w calonau gyda'r llef.


Tyn y cysgod pŵl o'n llygaid, Dyro i ni'th weld yn glaer fel Gwardwr a chynhaliwr, gair y proffwyd, ddwyfol aer. Pâr i wefr dy ymddangosiad, gynnu tan mewn calon drist: Ti sydd yma'n torri'r bara yn ein canol, ddwyfol Grist.

*Awen Powell*

## Cofio Daucanmlwyddiant Thomas Jones, Caerwys, yr Wyddgrug, Rhuthun a Dinbych



allweddol i dwf eglwys y Methodistiaid Calфинаidd yno, ac yna yn Rhuthun, cyn symud yn ddiweddarach i Ddinbych, lle ceir capel coffa iddo. Daeth yn un o gewri'r cyfnod – yn ddiwinydd, arweinydd, ysgolhaig, llenor, bardd ac emynydd rhagorol.



*E. Wyn James yn darlithio*

Dyma wneud peth iawn am yr amddifadu o'r cyfleoedd i'w gofio gyda dolen i ddarlith gan yr Athro E. Wyn James, Caerdydd, amdano, a draddodwyd yng nghapel Cildwrn, Llangefni, fis Rhagfyr diwethaf: <https://youtu.be/wn9pbIqsK7E>

Ym mis Mehefin ac yn ystod yr haf, yr oedd nifer o ddarlithoedd a chyfarfodydd i goffáu cyfraniad Thomas Jones o Ddinbych wedi eu trefnu, a hynny ar ddaucanmlwyddiant ei farw ym Mehefin 1820. Brodor o Sir y Fflint oedd Thomas Jones, a threuliodd ei flynyddoedd cynnaf yn byw ym Mhenuchaf Caerwys (lle mae perthnasau iddo'n parhau i fyw). Bu yn yr Wyddgrug am naw mlynedd, lle bu'n

## Arestio pregethwr am fod ar Zoom

Mae gweinidog eglwys o Wuhan, China, wedi'i gadw yn y ddalfa wrth iddo bregethu i gynhadledd Gristnogol a oedd yn cael ei darlledu ar blatfform sgwrsio fideo Zoom. Roedd y Pregethwr Luo o Eglwys Nanjing Road yn siarad mewn cynulliad efengylaidd o'i eglwys 'Cyhoeddi Iesu' pan gipiodd yr heddlu'r gweinidog. Cafodd ei ryddhau ar ôl pedair awr a hanner o holi.

Yn ôl adroddiad gan yr International Christian Concern (ICC), defnyddiodd Luo yr amser yn nalfa'r heddlu i dystio sut roedd Cristnogion wedi bod yn gwasanaethu pobl yn y ddinas yn ystod y pandemig. Dywedwyd bod yr heddlu wedi eu syfrdanu gan weithredoedd da'r gymuned ffydd.

Dywedodd Luo: 'Rwy'n eu ceryddu, gan nad ydyn nhw'n gwarchod yr hyn y dylen nhw fod yn ei warchod. Fe wnaeth Cristnogion ddiystyru eu bywydau eu hunain i wneud pethau da, ac eto mae'r heddlu'n eu trin fel dynion drwg – mae hyn yn afresymol.

'Dywedais wrthyn nhw droeon ym

mhob difrifoldeb: dim ond dros Grist y byddaf yn byw ac ni fyddaf yn dadlau ar faterion eraill. Fodd bynnag, ni fyddaf byth yn newid [fy nyfalbarhad] ynghylch efengylu.' Rhyddhaodd yr heddlu ef ychydig yn ddiweddarach.

Ddiwedd mis Ionawr, pan oedd Wuhan dan warchae a'r ddinas wedi ei chau yn llwyr, fe adroddodd ICC ar fideo a oedd yn dangos Cristnogion yn dosbarthu masgiau wyneb a thraciau i bobl allan ar y strydoedd. Er y byddai credinwyr fel arfer yn cael eu harestio am ddangos eu ffydd mor agored, yn ystod anterth yr achosion o'r Coronafirws, gyda'r heddlu'n rhoi sylw i faterion eraill, gwelwyd enghreifftiau niferus o garedigrwydd Cristnogol yn cael eu harddangos yn gyhoeddus.

(O daflen newyddion *Premier Christianity Today*, 26.5.20. Gellir ymuno i weddio dros y materion hyn wrth gofrestru i dderbyn copïau eich hun a rhifyn cyflwyno o'r cylchgrawn drwy ddilyn y ddolen: <https://premierchristian.news/>)

# S4C

**Sul, 7 Mehefin**

**Oedfa**

**Dechrau Canu Dechrau Canmol  
am 11:00yb**

gydag Elin Maher o Gasnewydd yn arwain.

**Dechrau Canu Dechrau Canmol  
nos Sul am 7:30yh**

(ailddarlledir y bore Sul canlynol cyn yr oedfa)

Mewn cyfnod lle mae angen nerth fwy nag erioed, yr wythnos yma cawn glywed gan un sy'n gefn i deuluoedd a staff ar y llinell flaen, Uwch Gaplan Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Euryl Howells, a bydd merch ifanc o Ddyffryn Conwy, Mirain Glyn, yn sôn pam ei bod hi'n benderfynol o wella iechyd meddwl cefn gwlad. Cawn fwynhau perfformiad arbennig gan Rhys Gwynfor a Lisa Angharad o Bydd Wych.

# BBC | radio cymru

**Caniadaeth y Cysegr**

**Sul, 7fed Mehefin**

**7:30yb a 4:30yp**

Yn ôl ei arfer ar ddydd Sul cynta'r mis, Y Parchedig Owain Llŷr Evans sy'n cyflwyno *Caniadaeth y Cysegr*. Mae'n parhau i ddathlu pen-blwydd *Caniadaeth y Cysegr* yn 70 mlwydd oed gyda'r cynllun o gofnodi emynau llai cyfarwydd *Caneuon Ffydd*. Pwrpas y prosiect yw sicrhau bod gan genedlaethau'r dyfodol archif gyflawn o'r gyfrol honno, er mwyn gwerthfawrogi'n traddodiad emynyddol. Corau o wahanol ardaloedd o Gymru sy'n canu'r emynau heddiw.

Mae Radio Cymru wedi newid trefn y ddarpariaeth grefyddol ar y Sul ers mis Ebrill, gyda'r arlwy yn edrych fel hyn bellach:

7:30yb Caniadaeth y Cysegr  
12:00yp Yr oedfa  
12:30yp Bwrw Golwg  
16:30yp Caniadaeth y Cysegr  
(ailddarllediad)

**Oedfa Radio Cymru**

Oedfa Radio Cymru am 12:00yp, 7 Mehefin: Parch. Geoffrey Eynon, Cas-blaidd.



**YN RHAN O GYNLLUN DUW**

**Golwg newydd ar agwedd y Cristion at “wrywgydiaeth”**

Mae gen i ddau reswm dros fynd ar ôl y mater yma. Yn gyntaf, fel Cymro Cymraeg rydw i ers fy mhientyndod wedi gwybod sut beth ydi min tafod – ac, yn fy ieuenctid, blaen dwrn – y bigot. Mae gen i felly gydymdeimlad byw â phobl a ystyrir yn lleiafrif y gellir ei ffeiddio. Yn ail, mae’n amlwg bod agwedd draddodiadol Cristnogion tuag at bobl hoyw yn eistedd yn bur anghyfforddus â’r cariad fyddwn ni’n ei arddel a chyfarwyddyd Iesu i garu ein cymdogion. Mae hyn wedi creu sefyllfa lle mae’r holl fater yn cael ei gadw o’r golwg. Ond dydi’r math yma o osgoi ddim yn iach, yn arbennig pan ei fod yn golygu peidio delio â rhagfarn a dioddefaint. Erbyn hyn, gyda bod yr wybodaeth angenrheidiol bellach ar gael i wneud hynny’n foddhaol ac yn ysgrythurol, mae posib mynd i’r afael â’r mater tetshiws yma. Ac o wneud fe allwn ni, o’r diwedd, ddechrau cydnabod a gwerthfawrogi pobl hoyw, eu cyfraniad, a’u lle yng nghynllun Duw.

O fyw yng nghreadigaeth Duw, o sylwi arno a’i werthfawrogi, fe welwn ni ei fod yn greadigaeth sydd yn newid, yn symud yn ei flaen, yn barhaus. Ar yr un pryd fe allwn ni weld bod y symud ymlaen a’r newid hwnnw’n dilyn patrwm, ac mai un o brif nodweddion sail y patrwm hwnnw ydi parhâd. O safbwynt y ddynoliaeth, mae hyn yn golygu parhâd y teulu, y tylwyth a’r hil ddynol. Nodwedd arall o’r greadigaeth ydi bod lle a rhan ynddo i bob peth y bu i Dduw ei greu. Mae’n amlwg erbyn hyn bod pobl a grewyd yn hoyw yn un o’r “pethau” hynny.

Mae’r wybodaeth sy’n amlygu hyn yn dod o feysydd geneteg a’i chwaer-faes epi-geneteg. Geneteg, fel y gwyddoch chi mae’n siŵr, ydi’r maes astudiaeth hwnnw sy’n edrych ar ein “cynllun” dynol, y cynllun hwnnw sydd wedi ei osod ym mhob un o gelloedd ein corff ac yr adeiladwyd ni ar ei batrwm. Mae epi-geneteg efallai’n llai cyfarwydd, ond yn faes sy’n ymwneud â’r hyn sy’n dylanwadu ar ein cynllun genetig ac â chanlyniadau hynny ar natur yr unigolyn. Un o’r pethau mae epi-geneteg yn dangos i ni ydi bod posib, er enghraifft, cael dau berson ag

union yr un cynllun genetig, ond sydd eto’n bobl hollol wahanol. Y rheswm am hynny ydi bod amgylchiadau’r ffetws a’r plentyn wrth iddyn nhw ddatblygu yn y groth yn dylanwadu ar y ffordd mae ei gynllun genetig yn mynegi ei hun, ac yn sgil hynny ar ei natur fel person.

Dydi cynllun y greadigaeth ddim yn endid ymwybodol, ac felly mae ei ymateb i amgylchiadau’n un awtomatig. Er enghraifft, pan fyddwn ni’n dychryn, fyddwn ni ddim yn ymwybodol gymell ein cyrff i gynhyrchu’r adrenalin sydd ei angen i ni ymateb i’r dychryn hwnnw, mae o’n ymateb awtomatig. Mae’r un peth yn wir am yr hyn all ddigwydd yn y groth. Dyweder, er enghraifft, bod y cyfnod beichiogrwydd yn un llawn pryder a gofid, fe all fod y corff yn tybio bod hynny’n ganlyniad amgylchiadau byw anodd – newyn, er enghraifft. O ganlyniad, drwy broses epi-geneteg, fe all y corff fynd ati i ddylanwadu ar enynnau’r ffetws gyda’r diben o’i baratoi ar gyfer bywyd o ansicrwydd a newyn.

Mae’r proses ei hun yn un o “ddeffro” gallu yn y genynau, gallu sy’n addas i’r amgylchiad tybiedig, ac un fyddai fel arall yn aros ynghwsg. Un canlyniad i hyn ydi creu plentyn na fydd fel oedolyn yn cynhyrchu plant, sydd wrth gwrs yn golygu llai o gegau i’w bwydo a llai o boblogaeth i boeni amdano – math addas iawn o berson i sefyllfa o ansicrwydd neu newyn. A dyma’r pwynt: mae’r oedolyn hwnnw’n aml iawn yn oedolyn hoyw.

Mewn geiriau eraill, mae creu pobl hoyw, yng ngolwg y greadigaeth, yn helpu sicrhau parhad y teulu, y llwyth a’r hil ddynol. Mae’n ymddangos bod yr un peth yn gallu digwydd, am yr un rhesymau, mewn teuluoedd â llawer o blant.

Y casgliad o hyn i gyd ydi bod y Cread yn ystyried nad oes modd atal cenedlu, ond bod modd gwarchod dyfodol y teulu, llwyth a hil drwy sicrhau na fydd rhai o’r plant gaiff eu cenedlu’n creu mwy o bobl eu hunain. O’i roi yn syml, mae pobl hoyw wedi eu creu i bwrpas.


Ond mae cyfraniad pobl hoyw yn fwy na hynny. Ar adegau o amgylchiadau anodd, mae angen pobl alluog fydd yn helpu’r teulu, llwyth, hil i wneud y penderfyniadau cywir o ran sicrhau eu parhâd. Yn hynny o beth, mae’n ymddangos bod pobl hoyw yn fwy dawnus ar gyfartaledd na’i brodyr hetero. Hynny ydi, nid yn unig maen nhw’n rhydd o ddyletswyddau magu plant, ac felly â’r *amser* i gyfrannu mwy, ond mae ganddyn nhw hefyd yr empathi, y doniau a’r galluoedd ychwanegol i *allu* cyfrannu mwy na’r cyffredin. Fe hoffwn i nodi fan hyn bod hyn yn cyd-fynd yn gywir iawn â’r profiad personol sydd gen i o gydweithio â phobl hoyw.

Rhaid nodi bod y darlun yma o effeithiau epi-geneteg yn un or-symbl a chul ei ffocws, a bod gwell esboniad i’w gael. Yn hynny o beth, a ga’ i argymhell a’ch annog i wyllo ar YouTube, fideo o’r enw: **Tedx - Homosexuality: It’s about survival not sex.** Y siaradwr ydi’r Doctor James O’Keefe, sy’n dad i w’r ifanc hoyw. Mae o’n cyflwyno’r wybodaeth ar ffurf sleidiau a sgwrs, ac mewn modd tipyn mwy eglur, cynhwysfawr ac urddasol nag yr ydw i.

Felly i gloi, mae’n debyg – o’r wybodaeth sydd bellach ar gael – bod pobl hoyw yn rhan ddilys, bwriadol ac angenrheidiol o gynllun a chreadigaeth Duw. Gyda bod hynny’n ddatganiad fydd yn gwneud ambell un yn anghyfforddus, rydw i yn yr erthygl nesaf, am geisio dangos sut mae cysoni’r olwg newydd yma ar “wrywgydiaeth” â gorchmynion Paul ac â geiriau lesu.

*Dafydd Chilton*

**Ceromafeirws**



Ceromafeirws, plis dos! bydd rhaid dy drechu nawr gwnawn hynny gyda’n gilydd drwy gymorth bach a mawr.

Daeth cyfyngiadau arnom, a’i dyma yw ein ffawd? rhaid cadw draw o bobman cyfoethog, neu boed dlawd.

Dim capel, siop nac ysgol dim byd i’w weld yn Spar dim siawns cael cwrdd â’n ffrindie dim teithio yn y car.

Bu Boris yn y ‘sbyty a’i ben yn oer a phoeth yn gorwedd yn ei wely gobeithio bydd o’n ddoeth.

Fe gawsom lythyr ganddo yn llawn rheolau da ond hyn sydd yn ein poeni mae’r feirws hwn yn bla!

Ceromafeirws, plis dos! ‘does neb dy eisiau di rhed i ffwrdd a phaid dod nôl! clyw nawr ein gwaedd a’n cri.

**Parch Iorwerth P. Jones (Rhuthun)**

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn...

Yn ystod y cyfnod hwn gwerthfawr yw oedi a threulio amser yn myfyrio ar air Duw yng nghwmni'n gilydd. Yr ydym yn dilyn awgrymiadau gan y Llithiadur Diwygiedig Cyffredin ar gyfer y Sul.

## Bod a Mynd

**Gwedd:** Dduw ein llawenydd mae dy ogoniant a'th fawredd i'w gweld ar bob twyn. Tywynna arnom yn dy Fawredd, dy Air a'th Ysbryd. Diolch yn lesu Grist bod croesffyrdd y dwyfol a'r dynol yn cydgyfarfod. A wnei di heddiw ganiatáu i'th Ysbryd Glân ein gwahodd i'th lawenydd di, i'r fangre dwyfol lle yr wyt yn adnabod a chael dy adnabod. Ti yw Arglwydd ein creadigaeth a rhoddwr bod. Ti yw'n gwareddwr a'n prynwr. Ti sy'n trigo o'n mewn gan greu ffrwyth dy Ysbryd Glân oddi fewn i greadigaeth newydd. Caniatâ i ni fynegi ein hundeb â Christ a'n hundod yng Nghrist fel y medrwn fynegi dy ogoniant mewn ffydd sy'n weithredol, mewn gobaith nad yw'n siomi mewn anawsterau, mewn cariad sy'n parhau ac sy'n dyfalbarhau i'r eithaf. Hyn oll a ofynnwn yn lesu Grist, er gogoniant y Tad, drwy nerth yr Ysbryd Glân.

**EMYN 42** (Caneuon Ffydd): Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd...

### DARLLEN:

Salm 8; Mathew 28:16-20  
Myfyrdod: Mathew 28:16-20 Rhoi Comisiwn i'r Deuddeg.

Dwi'm yn gwybod os ydych wedi sylwi ar hyn ond mae modd i ni fod yn ddieithriad yn ein cynefin ac yn ddall i harddwch y cyfarwydd.

Fe wynebwn berygl nid annhebyg wrth i ni droi at yr adnodau cyfarwydd yma. Cipolwg yn unig o gyfoeth yr adnodau sy'n bosibl yn y gofod sydd gennym. Ond y gwir yw bod eu haeriadau mor syfrdanol, eu galwad mor heriol, y cam yn ein dychymyg mor syml ac arswydus fel ein bod yn cael ein syfrdanu gan eu haruthredd.

**Daethant ynghyd**, meddai Mathew, i Galilea, i'r "mynydd lle trefnodd lesu iddynt fod." (ad 16) Does dim arwydd yn yr adnodau bod yr apostolion yn deall arwyddocâd y cyfarfyddiad hwn o flaen llaw.

Oedwch am foment i ddychmygu ac ystyried beth fyddent wedi ei gollu pe **na baent** wedi ymateb i'r Trefnwr. Ymhlith ei bobl, "trefnodd" lesu ddod atom, o wythnos i wythnos er mwyn i ni brofi ei bresenoldeb, ei adnabod, ei addoli ac i glywed ei air. Peidiwn â bod yn ddibris o'n braint.

**Daethant a'i addoli.** (ad 17) Yn nechrau efengyl Mathew pan welodd y "doethion"

lesu "syrthiasant i lawr a'i addoli". (2:11) Ar ddiwedd ei weinidogaeth ddaearol gwelodd ei ddisgyblion ef a'i addoli. Addoli yw rhagflas y nef – ei ganolbwynt, ei ieithwedd, ei fawl. A phan ymunwn o wythnos i wythnos mewn addoliad o'r fath dechreuwn ninnau diwnio'n calonnau i seinio'i fawl, i agor cil y drws ar fywyd sy'n "guddiedig iawn i'r byd".

**Daethant a'i amheuan.** (ad 17) Hyd yn oed wedi treulio amser yng nghwmni lesu, ei glywed, ei weld yn dioddef drostynt ar y groes, wedi iddynt ei weld wedi'r atgyfodiad dros gyfnod o 40 niwrnod roedd rhai yn parhau i amau. Mae "ffydd" bob amser yn byw gyda'i amheuan – mewn drych, mewn dameg, fel cysgod realiti yr ydym yn gweld gogoniant lesu. Ac er bod yr hyn a welwn yn "real" ac yn sefydlog nid yw ein dirnadaeth bob amser yn sefydlog na'n deall yn eglur. "Er mai o ran yr 'wy'n adnabod...' yw ein cân. Iaithe ffydd, a gorchfygwr ein hamheuan, yw iaith addoli hyd nes y cawn "ei weled fel y mae".

**Daethant at Arglwydd** (18) Mae geiriau lesu'n ein herio i'r byw hyd heddiw. "Dywedwch ymhlith y cenedloedd 'Y mae'r Arglwydd yn Frenin...'" oedd galwad y Salmu. (Salm 96) Byddai'r disgyblion wedi adnabod yr alwad fyd-eang sydd ynddynt i ufuddhau i'r Brenin hwn. Byddent yn gwybod bod gwas etholedig Duw yn dod i "osod barn ar y ddaear" a'i fod yn "gyfamod pobl, yn oleuni cenedloedd." (Eseia 42:1-9) Peth arall oedd clywed bod pob awdurdod dan y nef, yn ôl lesu ei hun, yn perthyn iddo ef. Iaithe "cyfamod" a "goleuni" yw'r geiriau hyn. Perthyn pob awdurdod i lesu – Ef ei Hun yw'r cyfamod dwyfol a'r cyfamodwr dwyfol yn un.

**Ewch yn enw'r Arglwydd** i wneud disgyblion. (ad 19) Nid gwahodd ymateb sefydliadol clwb sanctaidd sy'n mesur ei llwyddiant yn ôl nifer aelodau ar lyfr, na charedigion yr achos yw hwn. Galwad ydyw i fod yn ddisgyblion – i gymryd Arglwyddiaeth lesu o ddifri; i geisio dysgu beth yw oblygiadau ei arglwyddiaeth. Os gosodwn unrhyw fesur heblaw am "wneud disgyblion" fel rheswm ein parhad y gwir yw bod ein capeli mewn gwirionedd wedi colli rheswm ein bod. Drwy ei "chenhadaeth" gwasanaethgar yr adnabyddir gallu Crist heddiw. Caiff pob un ohonom sy'n arddel enw ac Arglwyddiaeth lesu'n ein galw i ddysgu beth yw ystyr "cadw'r holl orchymnion a roddais i chwi."

**Ewch yng nghwmni'r Arglwydd.** (ad 20) Mae Mathew'n dechrau'r newyddion da am lesu trwy ei adnabod fel yr Emaniwel – Duw gyda ni. Ar derfyn ei weinidogaeth ddaearol mae'n cloi gyda addewid lesu – "yr wyf gyd chwi bob amser..." Bob amser. Bob man. Bob cyfnod. Yn "wastad hyd ddiwedd amser."

Felly yr adnabyddwn eglwys lesu Grist heddiw fel disgyblion addolgar, fel tystion gobeithiol, fel cymdeithas hyderus. Mae'r Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân wedi ymrwymo i hyn. Felly fe weithiwn ac fe weddiwn er gogoniant Duw Dad. Fe nesawn at y Tad trwy lesu Grist, trwy edifeirwch a ffydd (Luc 24). Fe ddisgwyliwn gyflawniad terfynol holl amcanion Duw ynom drwy'r Ysbryd Glân sydd ar waith ynom, fel unigolion, fel eglwys.

### GWEDDI

Arglwydd Dduw, brenin y creadigaeth, yr hwn sy'n teyrnasu dros y bydysawd, y nef a'r ddaear oll ynghyd, yr hwn sy'n Bod cyn bod bydysawd nac amser.

Ti sydd Dduw;

Ti yw awdur bod a chrêwr cyfanfyd.

Ti yw'r Gair bywiol sy'n dwyn ein gwaredigaeth.

Ti yw'r Ysbryd Glân sy'n ein tywys at eiriau'r Bywyd a'n galluogi i'th adnabod a'th ogoneddu.

Arwain ni fel y medrwn dy adnabod yn well a chyhoeddi'r hyn yr wyt wedi datguddio ohonot dy hun yn lesu Grist a llawenhau yn dy ogoniant.

Gweddiwn dros y byd yn ei ing...

Gweddiwn dros ein cenedl a thros ein bröydd...

Gweddiwn dros y tlawd, y methodig, y ffaeledig, y galarus...

Gweddiwn dros ein plant, ein hwyrion, ein hysgolion...

Gweddiwn dros ein haelodau yng nghapel.....

Arglwydd i Ti y perthyn y nerth, y gogoniant, yr anrhydedd, y Duw Aruthrol, sydd Dri yn Un ac Un yn Dri, y Tad, Mab ac Ysbryd Glân.

### GWEDDI'R ARGLWYDD

**EMYN 257** (Caneuon Ffydd):

Rwy'n gweld o bell y dydd yn dod...

*Diolch i bob un sydd wedi defnyddio'r myfyrdodau yma yn ystod yr wythnosau diwethaf ac sydd wedi cysylltu i fynegi eu gwerthfawrogiad o'r ymdrechion.*

Os na nodir yn wahanol nid yw barn y cyfranwyr o angenrheidrwydd yn farn y golygydd na'r Gymanfa Gyffredinol.

Anfoner pob gohebiaeth, newyddion, ysgrifau, a.y.y.b. at y Parch. Ddr. R. Watcyn James, Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth SY23 3LZ. e-bost: [goleuad@ebcpcw.cymru](mailto:goleuad@ebcpcw.cymru)

Cyhoeddwyd gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru ac argraffwyd gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon.

• Wythnos nesaf – Cofio am ymgyrchwr yn erbyn cynhesu byd-eang •